**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Elin Jones MS,
Y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

7 Gorffennaf 2023

Amserlen Ddrafft Cyllideb 2024-25

Annwyl Elin,

Nododd y Pwyllgor eich llythyr yn holi am ei farn ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyllideb 2024-25 yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2023.

Rydym o'r farn bod agwedd Llywodraeth Cymru yn hynod siomedig: Fel Pwyllgor, rydym wedi galw'n rheolaidd am gael digon o amser i graffu ar gynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru, ac i hynny fod yn unol â Phrotocol Proses y Gyllideb ('y Protocol'), y cytunwyd arno ar sail drawsbleidiol yn 2017.

Rydym wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar nifer o achlysuron ynghylch yr anawsterau ymarferol y mae byrhau amserlenni yn eu peri i Bwyllgorau wrth gyflawni eu swyddogaethau craffu, yn ogystal â'r pwysau y mae'n ei roi ar randdeiliaid sy'n dymuno cyflwyno tystiolaeth ac ymgysylltu â'n gwaith, yn enwedig pan fydd tair wythnos o'r cyfnod hwnnw yn disgyn dros doriad y Nadolig.

Yn fwyaf diweddar, ysgrifennais ar 23 Mehefin 2023 yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan y mwyafrif helaeth o Gadeiryddion Pwyllgorau ynghylch amseroldeb y broses gyllidebol a'r diffyg amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu priodol. Rydym felly wedi'n digalonni'n fawr na chafodd y safbwyntiau hyn eu hadlewyrchu pan gynigiwyd yr amserlen hon.

Ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf, rydym wedi derbyn y dadleuon bod lefelau sylweddol o ansicrwydd cyllido yn arwain at oedi cyn gosod y gyllideb ddrafft.  Er ein bod yn cydnabod nad yw Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi dyddiad y digwyddiad cyllidol yn yr hydref eto, nid ydym yn

ystyried hyn yn rheswm cryf ynddo'i hun i oedi rhag cyhoeddi cynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru ac nid ydym yn cytuno mai dyma'r unig ddewis doeth sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

Fel y mae'r Trefnydd yn nodi yn ei llythyr, mae dyraniadau cyllidebol dangosol eisoes ar gael i Lywodraeth Cymru, ac er ein bod yn derbyn bod pwysau chwyddiant yn parhau'n uchel, nid ydynt, yn anffodus, yn syndod ac nid ydynt, yn ein barn ni, yn creu "llawer o ansicrwydd" yn sefyllfa gyllido Llywodraeth Cymru a bod angen gwyro oddi wrth y broses 'normal' a amlinellir ym mhrotocol y gyllideb.

Nid ydym chwaith yn derbyn mai materion y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru sy’n llwyr gyfrifol am yrr oedi, o gofio bod gan y Gweinidog ddisgresiwn sylweddol i benderfynu pryd y cyhoeddir cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru sydd, yn eu tro, yn pennu faint o amser sydd gan Bwyllgorau'r Senedd i gynnal y gwaith craffu sydd ei angen.

Fel y gwyddoch, dyma'r bumed flwyddyn yn olynol pan nad yw'r broses dau gam a nodir yn y Protocol wedi'i dilyn. Mae cais Llywodraeth Cymru i ohirio'r broses gyllidebol eto eleni, yn awgrymu mai prin yw'r amgylchiadau y gellid eu hystyried yn flwyddyn "arferol".

Bwriad y protocol oedd caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid ymgymryd â rôl oruchwylio drwy ganiatáu rhagor o amser i bwyllgorau polisi wneud gwaith craffu a'u galluogi i gymryd rhagor o dystiolaeth gan randdeiliaid. Mae hyn yn cwestiynu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r arferion cytunedig hyn, o gofio nad yw amseru'r gwaith o graffu ar y gyllideb yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud hyn yn bosibl.

Serch hynny, rydym yn croesawu parodrwydd y Trefnydd i ailedrych ar ddyddiadau cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft pe bai cyhoeddiad y Canghellor ynghylch dyddiadau digwyddiad cyllidol yr hydref yn ddigon cynnar i ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer ei pharatoi a chraffu arni.

Byddwn yn cadw llygad barcud ar y datblygiadau hyn ac yn gobeithio y bydd eglurder pellach ynghylch amseru'r materion hyn yn arwain at ragor o amser i graffu ar gynigion cyllideb Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl yn nhymor yr hydref.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.